

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD

P J Lucas

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms.Karyl May - Ffôn. (01443) 424045

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 25 Tachwedd 2015 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a

2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2015 yn rhai cywir.

1 - 12

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Baccara i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Diwylliant a Hamdden (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

"A fyddai'r Aelod o'r Cabinet yn fodlon esbonio pam mae ein gweithwyr casglu sbwriel yn methu â gweld y llinell goch a gadael cyflenwad arall, pan fydd angen bagiau ailgylchu newydd? Mae'r bagiau hyn, weithiau, ar gael o leoedd megis fy Swyddfa Bost, llyfrgelloedd ac ati, ond mae'r cyflenwad sydd ar gael bob amser yn gyfyngedig oherwydd diffyg lle. Mae'r bagiau ailgylchu bwyd bron yn amhosibl i'r cyhoedd gael gafael arnyn nhw, ond rydyn ni'n gosod sticeri ar y biniau ag olwynion sy'n rhoi gwybod am ddirwy o £1,000 os bydd bwydydd ynddyn nhw. Sut gallwn ni roi bai ar y cyhoedd a rhoi dirwy am beidio â bodloni'r rheolau ailgylchu pan fyddwn ni, fel awdurdod, yn methu â chadw at ein cytundeb ni o ran darparu'r bagiau sydd eu hangen?"

- (b) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor a materion Corfforaethol (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

"A chithau'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor, a wnewch chi ddatganiad ar eich meysydd o atebolrwydd a chyfrifoldeb?"

- (c) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R.Yeo i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff yr Arweinydd roi'r diweddaraf ynghyd â hynt cynllun Metro De Cymru yn Rhondda Cynon Taf?"

- (ch) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Rees i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff yr Arweinydd roi'r diweddaraf ynghyd â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)?"

- (d) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Griffiths i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Pa gynnydd y mae awdurdodau lleol yn yr ardal yn ei wneud ynglŷn â chydweithio er mwyn gwireddu amcanion cyffredin?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y Flwyddyn Ariannol hyd at 31 Mawrth, 2015 – Gorffen Archwiliad 13 – 18**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

- 8 Adolygiad o Strwythur Uwch Reolwyr y Cyngor 19 – 46**

Trafod adroddiad y Prifweithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

- 9 Pecyn Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd a Diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion 47 – 52**

Trafod adroddiad y Prifweithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

- 10 Gweithredu Datganiad o Egwyddorion 2016 - 2018 - Deddf Gamblo 2005 53 - 96**


Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant.

- 11 RHYBUDD O GYNNIG**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol L.Walker a P.Wasley:

"Mae'r cynnig hwn yn gofyn bod y Cabinet yn ailystyried ei benderfyniad i dalu treuliau teithio yn ôl 35c y filltir sy'n 10c yn is na chyfradd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn effeithlonrwydd a thegwch i weithwyr y Cyngor".

- 12** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob aelod o'r Cyngor

18 Tachwedd, 2015

